

## Cofion

Anfonwn ein cofion heddiw at Ynwr Clwyd (Henllan) sydd wedi cael dwy lawdriniaeth yn ystod yr wythnos yn Ysbyty Glan Clwyd. Gweddïwn y bydd y dyddiau nesaf yn rhai lle bydd yn cryfhau ac y bydd ef a'r teulu yn profi Duw yn dda ac yn agos atynt. Diolchwn am y gofal arbennig y mae Ynwr yn ei gael yn yr ysbyty a dymunwn wellhad llwyr a buan iddo. Cofiwn yn ein gweddïau hefyd am Maldwyn Jones (Cefn Berain) sydd wedi bod yn bur wael y dyddiau diwethaf hyn. Diolchwn amdano a gweddïwn ei fod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu. Cofiwn am ei deulu hefyd a gofynnwn Iddo gysgodi drostynt hwythau.

## Derbyn yn Aelodau

Mae sawl un wedi cysylltu yn dangos diddordeb i ddod i gyflwyniad syml i Gristnogaeth ac, os byddan nhw'n awyddus, i gael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol wedi hynny. Os oes mwy o ieuencid 15+ â diddordeb, cysylltwch ag Aneurin, Rhodri neu Mair cyn diwedd mis Chwefror, os gwelwch yn dda, er mwyn inni gael penderfynu pryd fyddai'r amser gorau i gynnal y sesiynau.

## I ddod

- **WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Mawrth 28ain – Ebrill 2il, ac Ebrill 2il – 6ed. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: 0871 222 0201 / [www.wordaliveevent.org](http://www.wordaliveevent.org)
- **LLANW** – Cyfle i'r teulu cyfan ddathlu'r atgyfodiad yng ngŵyl Gristnogol Llanw yng Nghricieth rhwng Ebrill 6ed-10fed. Y siaradwr yn oedfaon y bore fydd Dr Rhodri Glyn, a bydd siaradwyr gwahanol yn arwain oedfaon yr hwyr. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar y wefan: [www.llanw.org](http://www.llanw.org).
- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn Festri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 28fed. Y siaradwr gwadd fydd y Parch. Christopher Prew.
- **UNDEB ATHROFA'R BALA** – Cynhelir y Gynhadledd Flynyddol yn Seilo, Llandudno dydd Mawrth, Mai 5ed- am 10.00. Y siaradwr fydd Ei Anrhydedd Eifion Roberts a'r Parch. John Gwilym Jones. Croeso i bawb.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Llandudno dydd Mawrth, Mai 12fed. Mwy o fanylion i ddilyn.



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 15<sup>fed</sup> Chwefror 2015

Darlleniad y Dydd

Job 1:20-22

(BCND tud.459 / BCN: tud.420)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.thaglendorcas.com](http://www.thaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd drannoeth dydd San Ffolant. Mae cariad yn gwneud i'r byd droi medde nhw ac yn sicr yn rhoi rheswm ardderchog i ni foli Duw hefo'n gilydd heddiw. Duw, cariad yw. Ydi, mae'r 'comma' yn bwysig oherwydd hebdo dim ond Duw cariad fyddai Duw – byddai duw arall i dangnefedd, duw arall i'r môr ac un arall i'r gwynt a'r glaw ayb. Ond gwirionedd mawr y gosodiad hwn am Dduw (Duw, cariad yw) ydi fod Duw yn ei natur a'i Berson a'i hanfod yn gariad ac felly mae'n gwneud popeth o'i gariad. Mae ei holl gymeriad a'i ewyllys a'i farn yn gariad ac mae ei ofal a'i ras tuag atom yn cael eu gweithredu mewn cariad. Pan mae Duw yn maddau, mae'n maddau o gariad tuag atom, ac yn yr un ffordd pan mae Duw yn ein ceryddu neu yn ein dysgu, mae'n gwneud hynny mewn cariad. Pan mae Duw yn ein hachub, mae'n gwneud hynny o gariad tuag atom ac felly lle i ddiolch a chanmol sydd gennym bob tro y byddwn yn addoli. "Dyma gariad fel y moroedd..."

Rwy'n gyndyn iawn o drio esbonio'r adnodau yma o lyfr Job gan fod Rhodri yn llawer mwy cymwys na fi i wneud hynny! Y bennod hon oedd testun y traethawd a gafodd o Goleg Oakhill fel rhan o'r broses o gael ei dderbyn i'r Coleg ym mis Medi. Ond, gan mai fi sy'n sgwennu'r wythnos yma, dyma fentro dweud mai dyma'r adnodau sy'n ganolog i ddeall yr holl Lyfr! Ac mae Llyfr Job yn delio hefo'r pwnc mwyaf dyrys, sef presenoldeb dioddefaint yn y byd. Mae'r adnodau yn tystio fod Job yn gweld mai yn llaw Duw y mae pob peth – y rhoi a'r cymryd ymaith, yr ail-roi a'r ail-fywchau. Yr hyn sy'n syfrdanol yw'r geiriau olaf yn y darn sy'n dod wedi i'r gwirionedd yma gael ei fynegi sef: "Bendigedig fyddo enw'r Arglwydd!"

Os ydi cariad anhraethol Duw yn cymell addoliad, dyma gyd-destun arall i'n haddoliad hefyd, sef plygu glin i'r Un sydd yn rhoi pob peth ac yn dwyn ymaith. Mae angen yr Ysbryd arnom i'n goleuo yn hyn fel y gwnaeth i Job. A deud y gwir, mae gweddill y Llyfr yn rhybudd i ni gan ei fod yn dangos cymaint ydi dryswch yr atebion sydd gan gyfeillion neu 'gysurwyr' Job oherwydd nad ydynt wedi dirnad y gwirionedd sydd yn yr adnodau yma.

Heb iddynt gael eu goleuo, maent yn cynnig pob math o atebion ac yn galw ar Job yn aml i felltithio Duw. Dyma'n union beth fyddai Stephen Fry yn ei wneud petai'n cyfarfod Duw yn ôl ei gyfaddefiad ei hun yn ddiweddar. Dengys y gair yma pa mor amhosibl ydi hi i ni gael esboniad llawn ar ein cyflwr na chyflwr y byd heb i'n calonnau ninnau hefyd rannu'r un gred a ffydd ag sydd gan Job yma, a bod yr Ysbryd yn dod â ni yn y diwedd i gyffesu'n hyderus "Bendigedig fyddo enw yr Arglwydd!" Dyna'n braint ni heddiw – addoli Duw am ei gariad anhraethol yn Iesu Grist ac am mai Ef yn unig sydd yn deilwng o gael ei addoli! Bendigedig wyt!

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

*Aneurin*

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Salm 1 (BCND tud.490 / BCN: tud.448)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 15<sup>fed</sup>
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth – 17<sup>eg</sup>
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Gwener – Sul  
20<sup>fed</sup> – 22<sup>ain</sup>
- **Penwythnos Ieuenctid** yng Ngholeg y Bala. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Os nad ydych eisoes wedi archebu lle, bydd angen i chi anfon y ffurflen ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala ar fyrder.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup>
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> Bydd Dr Andras Iago yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00 (SYLWCH AR Y NEWID LLEOLIAD). Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 (SYLWCH AR YR AMSER) ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau – 19<sup>eg</sup> Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

## Cyhoeddiadau

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Gwener – 20<sup>fed</sup> Bydd Cymdeithas Peniel yn cyfarfod am 7.30 pryd y bydd Rod Williams yn rhoi hanes ei ymweliad â Rwsia.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> Bydd Haf a Huw a theulu Tan y Graig yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00. Ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00, ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Llanefydd ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> Bydd Mr Gwilym Tudur yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

### Dalier Sylw

- Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.